1

RHAGARWEINIAD

Beth yw traddodiad?

Barddoniaeth: mae'r gair ei hun, mae'n debyg, yn codi ymateb digon diflas mewn plant ysgol y mae'n rhaid iddyn nhw ddygnu arni drwy gerddi penodedig, ac y mae'n codi syniad o anfuddioldeb yn y rhan fwyaf o bobol mewn oed. Pe baech chwi mor hy â gofyn i bobol beth y mae barddoniaeth yn ei olygu iddyn nhw, y tebyg yw y byddai rhai'n cysylltu'r peth â chariad neu â natur — disgrifiadau neis o enethod a blodau ac ati. Yn ôl yr argraff hon y mae'r bardd yn dipyn o bansan. Argraff sy wedi treiddio i ymwybod pobol o ganu rhamantaidd Lloegr y ganrif ddiwethaf a chanu rhamantaidd tro'r ganrif a'i dechrau yng Nghymru yw hon. Syniad cyfyng iawn o'r bardd a gyflwynir drwyddi. Byddai rhai'n siŵr o sôn hefyd am eisteddfod, am y gadair a'r goron, ac am gynghanedd. Y mae'r pethau hyn yn ein harwain ni'r Cymry yn ôl at hen bethau y bu ein pobol yn ymhél â nhw, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, am ddwy fil o flynyddoedd a mwy. Dyma elfennau ein traddodiad barddol. Y mae pethau heblaw genethod a blodau yn rhan o'r traddodiad hwn, ac nid pansan yw'r bardd ond crefftwr.

Traddodiad: dyma'r gair pwysicaf un i'r sawl sydd am fynd ati i ddarllen a mwynhau barddoniaeth Gymraeg. Fe ddywedais i gynnau ein bod ni, wrth droi at hen bethau, yn troi at draddodiad. Dyw hyn ddim yn golygu mai trafod hen stwff yn dragwyddol y mae bardd o Gymro os yw'n canu yn y traddodiad. Fe all hynny ddigwydd, wrth reswm, ac yn wir fe ddigwyddodd — mae canu rhai o'r diweddaraf o Feirdd yr Uchelwyr yn farw gan hen bethau — ond gyda bardd da y mae ei ddawn neu ei athrylith yn

gweithio ar yr hen bethau a ddaeth i'w ddwylo ac yn rhoi newydd-deb iddyn nhw. Mewn gair, y mae traddodiad o unrhyw werth yn beth byw a chreadigol am fod dawn yr unigolyn yn gweithio ar ei etifeddiaeth lenyddol o. Pan fo'r etifeddiaeth lenyddol yn gormesu ar ddawn yr unigolyn yna traddodiad marw a geir, rhyw ymarfer crefft er ei mwyn ei hun, megis gwneud olwynion trol cywrain mewn cyfnod pan nad oes yna ddim troliau. Felly, er bod yna elfen bwysig iawn, iawn o'r hen bethau, elfennau o sefydlogrwydd a pharhad mewn traddodiad, camgymeriad yw edrych arno fel peth anghyfnewidiol.

Hen bethau, sefydlogrwydd a pharhad; mae'n anodd meddwl y caech chwi afael ar dri pheth mor groes i'r graen yn ein cyfnod ni waeth pa mor hir y chwiliech chwi. Y newydd a'r cyfnewidiol, dyma'r pethau sy'n apelio at ein cyfnod ni, fe ymddengys. Er enghraifft, mewn oes o fas-gynhyrchu dyw pethau ddim yn cael eu gwneud i bara. Yr ydym ni yn cael ein hannog yn dragwyddol i brynu pethau newydd, i newid ceir, peiriannau golchi, teledyddion ac yn y blaen. Mae ein holl ffordd ni o fyw yn tueddu fwy-fwy i ddibynnu ar gyfnewid; mae sgert sy'n ddwy oed yn edrych yn ód, mae canu pop Seisnig sy'n chwe mis oed yn swnio'n hen ffasiwn. Yn wir, y mae un Americanwr, Harold Rosenberg, wedi honni fod yr ymchwil am y 'newydd' o hyd wedi troi erbyn hyn yn fath o 'draddodiad', y 'traddodiad' o chwilio am bethau newydd.

Er mwyn chwilio am y newydd fe ddatblygodd yr hyn a elwir yn gelfyddyd arbrofol. Hynny yw pobol, yn gerddorion ac arlunwyr a llenorion, yn mynd ati'n un swydd i geisio darganfod rhywbeth newydd. (Dylwn esbonio fod y gair 'celfyddyd' fel y byddaf fi'n ei ddefnyddio rŵan yn cynnwys arlunio, cerflunio, cerddoriaeth a llenyddiaeth.) Bu llawer o boitsio â phaent, nodau a geiriau i weld a oedd modd taro ar rywbeth a oedd yn gyfraniad i'r diwylliant modern. Daeth hap a damwain, ar draul crefft, yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Mewn gwirionedd y mae lle i ddadlau a oes ystyr i'r gair 'crefft' ond mewn cyswllt o draddodiad, sef o hen genedlaethau'n rhoi i genhedlaeth newydd rywfaint o ddoethineb, rhywfaint o syniadau. Mae hyn yn magu safonau beirniadol a rhywfaint o'r gallu i fesur crefft. Er enghraifft, os ydw i'n gyfarwydd â phob math o fyrddau a wnaethpwyd yn

y gorffennol a bod rhywun yn gwneud bwrdd newydd heddiw fe allaf fi, oherwydd fy ngwybodaeth, ei gymharu o â'r hyn sydd wedi bod ac fe allaf roi cynnig ar nodi ei ragoriaethau a'i wendidau o o'i gymharu o â byrddau eraill: hynny yw, rydw i'n beirniadu crefft. Allai person heb fy ngwybodaeth i am fyrddau'r gorffennol ddim rhoi barn yr un fath — efallai y byddai o'n meddwl fod siâp coes arbennig yn hollol newydd, a minnau'n gwybod fod yr un peth yn union wedi'i wneud yn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn awr, bwrier fod paentiwr yn gosod cynfas ar lawr ac yna'n tywallt coch, glas a du ar draws ei gilydd arni, yn cerdded drwy'r paent, yn mynd drosto ar gefn beic, yn tynnu ei nain drwyddo ac, ar y diwedd, yn chwarae gitâr yn gyfeiliant i'r cwbwl a'i alw yn 'Cyffro'. Fe allwn i, os ydw i'n gyfarwydd ag arlunio'r gorffennol neu gerddoriaeth y gorffennol alw'r cwbwl yn ffwlbri, ond fe allai'r 'crëwr' ddal nad llun yw ei greadigaeth o ac nad cerddoriaeth yw o ychwaith, ond cyfuniad cwbwl newydd, peth nad oes tebyg iddo wedi bod erioed o'r blaen. Petaem ni'n cymryd y crëwr ar ei air yna fe fyddai'n rhaid inni geisio edrych ar ei greadigaeth heb ei gymharu o â dim arall ac fe fyddai ein barn ni am y gwaith yn gwbwl oddrychol — fe fyddem un ai yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi. Mae hi'n anodd i unrhyw berson diwylliedig wneud hynny, wrth reswm. Y mae hyn, yn ei dro, yn rhan o'r rheswm pam y mae cefnu ar ddiwylliant y gorffennol, a hyd yn oed ei ddinistrio, yn rhan o gredo rhai mudiadau modern. Yr hyn sy gen i yw nad oes yna ddim cymaint â hynny o ystyr i feirniadu 'crefft' rhai gweithiau diweddar o gelfyddyd am eu bod yn ceisio cychwyn o'r dechrau, fel petai, heb fod yn rhan o unrhyw draddodiad na diwylliant. Adwaith aruthrol yn erbyn awdurdod traddodiad yw un o'r elfennau pwysig mewn rhan o gelfyddyd ddiweddar; am hynny mae hi'n gelfyddyd chwyldroadol. Mae rhagoriaethau y math hwn o gelfyddyd a'i leng gwendidau yn deillio o hyn. Y peth eironig yw fod hyn oll yn mynd yn rhan o'r llif mawr o hanes celfyddyd i gael ei gadw'n fywiol fel rhan o draddodiad neu i'w anghofio.

Peth arall sydd wedi dod i'r amlwg mewn celfyddyd yn neilltuol oddi ar y mudiad rhamantaidd yw 'personoliaeth' y sawl sy'n gwneud gwaith o gelfyddyd. Dyw hyn ddim i'w gael i'r un graddau mewn celfyddyd Glasurol (Groeg a Rhufain) nac yng

nghelfyddyd yr Oesoedd Canol. Sonnir weithiau am gelfyddyd 'amhersonol' yr Oesoedd Canol. Mae sôn felly'n llythrennol gywir wrth sôn, dywedwch, am eglwysi cadeiriol — roedd y gwaith o'u codi'n cymryd blynyddoedd lawer, amryw byd o bobol yn cymryd rhan yn yr adeiladu, a'r adeilad yn rhan o ffordd cyfnod o synio am Dduw. Mae'r un peth yn wir am y traddodiad llafar o lenyddiaeth, traddodiad sy'n bwysig yn ein hanes ni fel Cymry. Roedd chwedlau chwedleuwyr yn cael eu traddodi o'r naill genhedlaeth i'r llall gan bobol na wyddom ni yn awr ddim amdanyn nhw. Cafodd y *Mabinogi* eu hysgrifennu am y tro cyntaf ar ôl i'r straeon gael eu hadrodd ar lafar am hydoedd maith. Mae holi am awdur a phersonoliaeth y crëwr dan amgylchiadau fel hyn braidd yn ddiystyr. Mewn traddodiad cryf dyw cwlt personoliaeth yr awdur ddim yn cael lle i ffynnu'n arbennig o gryf er ei fwyn ei hun. Wrth gwrs y mae yna bersonoliaethau'n dod i'r wyneb yn amlwg o bryd i'w gilydd — dyna ichwi Ddafydd ap Gwilym a Siôn Cent, er enghraifft, — ond dod i'r wyneb y maen nhw, fel rheol, am fod yna elfennau cryf o wahaniaethu oddi wrth y traddodiad yn eu gwaith.

Eto, camgymeriad yw meddwl am gelfyddyd Glasurol neu gelfyddyd yr Oesoedd Canol fel lympiau amhersonol o bethau. Rydw i newydd enwi dwy bersonoliaeth lachar yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol; mae yna rai eraill mewn llenyddiaethau eraill, does dim ond yn rhaid i rywun enwi Catullus neu Villon i bawb sylweddoli hynny. O fewn y traddodiad barddol Cymraeg y mae cyfraniad y bersonoliaeth unigol yn bwysig, bwysig o fewn traddodiad. Mi geisiaf esbonio ymhellach ynglŷn â'r mater hwn yr ydw i wedi ei grybwyll o'r blaen. Mae yna elfennau sy'n gyffredin i Gynddelw, un o'r Gogynfeirdd, ac i Ddafydd Nanmor, un o Feirdd yr Uchelwyr; ond y mae yna fyd o wahaniaeth rhyngddyn nhw hefyd. Elfennau o'r traddodiad sy'n cyfrif am y pethau sy'n gyffredin; newid cyfnod a phersonoliaeth sy'n cyfrif am y pethau gwahanol. Ond, fel yr awgrymais yn barod, cyfanswm yr holl bethau hyn — yr hen bethau, cyfnod, a phersonoliaeth — ydyw traddodiad byw. Yr hyn na chewch chwi mohono fo o fewn y traddodiad yr ydym ni'n sôn amdano yw arbrofi rhemp a thynnu sylw myfïol ac ymorchestu ymdrechgar i fod yn newydd, a hynny am fod yna elfennau pwysig heblaw'r

unigolyn, heblaw personoliaeth y bardd, ynddo fo. (Eironi'r sefyllfa bresennol yw mai mater o enw, yn hytrach nag ansawdd arbennig mewn gwaith o gelfyddyd, a mater o giamocs personol ydyw 'personoliaeth' llawer o gelfyddyd ddiweddar. Tynnwch chwi enwau eu gwneuthurwyr oddi ar lawer o weithiau diweddar ac y maen nhw mor anunigryw â dau Ford Cortina.)

Y ffaith amdani yw fod personoliaeth yr unigolyn wedi bod yn magu ei grym mewn bywyd ac mewn celfyddyd yn y Gorllewin oddi ar ddiddordeb arbennig y Dadeni mewn dyn. Fe borthwyd profiad yr unigolyn gan y Mudiad Rhamantaidd ac fe'i coronwyd gan ymchwil seicolegol. Ar ôl Freud, yn arbennig, daeth y dyn oddi mewn yn gyfandir o ddiddordeb a'r profiad personol yn hollbwysig.

Ar un wedd gellir ystyried llawer o gelfyddyd ddiweddar yn arddangosiad o'r bersonoliaeth, dyn yn ei arddangos ei hun. Dyna un rheswm pam y mae'r math o feirniadaeth lenyddol a gysylltir â'r Ffrancwr Sainte-Beuve wedi bod mor boblogaidd. Beirniadaeth yw honno sy'n ystyried fod pob gwybodaeth am yr awdur o help wrth ystyried ei waith o. Gydag amryw byd o lenorion ac artistiaid yr Oesoedd Canol a chynt y mae'r math hwn o feirniadaeth yn amhosibl. Mae hyn yn rheswm arall pam y mae llawer o gelfyddyd yr Oesoedd Canol yn 'amhersonol'.

Ond y prif reswm pam y mae hi'n fwy amhersonol na chelfyddyd ddiweddar, yn fy marn i, yw ei bod hi'n gelfyddyd ag iddi seiliau metaffisegol. (Metaffiseg ydyw'r hyn nad yw o ddim yn faterol ac na ellir mo'i amgyffred â'r rheswm neu drwy ymchwil wyddonol.) Mewn gair, yn yr Oesoedd Canol roedd yna ymwybod o Dduw ac o'r goruwchnaturiol. Mewn sefyllfa felly dyw dyn ddim yn hollbwysig gan fod yna bethau y tu hwnt i'r bersonoliaeth ddynol. Mae Duw a'r goruwchnaturiol gyda ni o hyd, wrth reswm, ond y mae pobol bellach yn eu hanwybyddu nhw. Y mae gwyddoniaeth, y ddewiniaeth newydd, esboniadwy, yn gallu gwneud cymaint o ryfeddodau heddiw fel nad yw pobol ddim yn cael cymaint o gyfle i feddwl am y goruwchnaturiol. Ystyriwch chwi ddaeargryn, er enghraifft; bellach mae'r cwbwl yn esboniadwy; yn yr Oesoedd Canol fe allai fod yn arwydd o ddicter Duw. Hyd yn oed os ystyriwn ni hynny fel ofergoeliaeth ffôl y mae'n dal yn ffaith fod pobol o'r Oesoedd Canol yn cael eu bwrw

yn wyneb yr hyn oedd iddyn nhw yn oruwchnaturiol. Roedd hynny'n rhwym o ddylanwadu ar syniad dyn amdano'i hun yn y cyfnod hwnnw. Dyw hyn ddim yn golygu fod dyn yn berffeithiach yr adeg honno na dim byd felly — roedd pobol yr adeg honno, fel heddiw, yn gorfod ystyried eu bara beunyddiol ac yn y blaen, roedden nhw'n gybyddlyd, yn odinebus, yn llwgwr, neu yn onest a rhadlon ac ati, fel pobol heddiw; y cwbwl y mae o'n ei olygu yw fod ganddyn nhw syniad cyffredinol gwahanol am Dduw a'r goruwchnaturiol. Mae rhannau o'r byd hwnnw'n aros gyda ni o hyd. Mae o i'w gael hyd heddiw yng nghefn gwlad Catholig Ffrainc, neu yn Iwerddon rydd. Roedd y pethau hyn yn rhannau pwysig o'r traddodiad barddol.

Y Grefft Farddol

"Dydych chwi ddim yn gwneud cerddi â syniadau, ond â geiriau;" fel yna y dywedodd Mallarmé, y bardd Ffrangeg, wrth Degas ryw dro. Sylw digon pwrpasol, yn enwedig i'r truth hwn, efallai, gyda'r barcuta syniadol a gafwyd hyd yn hyn. Â geiriau y mae'r dyn sydd wrthi'n gwneud cerddi yn ymhél. Dyw hyn ddim yn golygu nad oes ganddo fo syniadau hefyd, ei syniadau ei hun neu syniadau ei gyfnod — â geiriau y gwneir syniadau hefyd, fel y mae'n digwydd — ond dyn yw bardd sy'n ystyried pethau heblaw'r syniadau a gyfleir gan eiriau. I fardd y mae sŵn, cysylltiadau a blas gair yn bwysig yn ogystal â'i ystyr o. Fe welwn ni mor bwysig fu elfennau heblaw'r rhai o ystyr a syniad yn y traddodiad barddol Cymraeg.

Wrth edrych ar ddechrau crefft draddodiadol y beirdd Cymraeg y mae'n rhaid troi at y dystiolaeth sydd ar gael am y bardd Celtaidd. (Celtiaid, yma, yw pobol a oedd unwaith yn siarad yr un iaith â'i gilydd ac wedyn a droes i siarad ieithoedd a ddatblygodd o'r iaith honno, ieithoedd megis Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, Manaweg ar y naill law, a Chymraeg, Cernyweg a Llydaweg ar y llall.) Tystiolaeth a geir yng ngweithiau rhai ysgrifenwyr Clasurol Groeg a Rhufain ac sydd i'w chael yn llenyddiaeth fore Iwerddon a Chymru, yn arbennig, yw hon. Mae haneswyr yn pwysleisio fod yn rhaid wrth ofal wrth drafod sylwadau'r ysgrifenwyr Clasurol am y Celtiaid, yn bennaf am eu bod nhw'n tynnu ar adroddiadau ei gilydd, ond y mae yna

bortread cyffredinol ac anfanwl yn dod i'r wyneb trwy eu tystiolaeth nhw. Daw'n amlwg fod gan y Celtiaid barch at farddoniaeth a chariad at huodledd; roedd barddoniaeth yn grefft yr oedd gofyn ei dysgu a'i hymarfer; roedd gwobr a thâl i'w cael am ymarfer y grefft o foli gwŷr; roedd y beirdd yn dychanu hefyd ar dro, a chan fod ganddyn nhw alluoedd goruwchnaturiol roedd eu dychan yn gallu bod yn ddychrynllyd — yn ôl tystiolaeth o Iwerddon gallai dychan effeithio ar gorff dyn a chodi afiechyd arno, a hyd yn oed ei ladd; crefft lafar oedd barddoni, math o gantor oedd y bardd a ddatganai i gyfeiliant offerynnau tebyg i delynau. Un rhywbeth yn debyg i hyn'na oedd y bardd Celtaidd.

Fe hoffwn i drafod dau bwnc sy'n codi o'r portread hwn, sef y materion o grefft ac o foli. Crefft lafar — geiriau'n donnau o sŵn yn yr awyr ac yn darfod, dyna sut y mae hi gyda chrefft lafar. All neb godi cerdd a lefarwyd ryw dro yng Nghelteg y Cyfandir a dadansoddi ei chrefft am nad oes yna'r un gerdd felly'n bod. I gael syniad o'r grefft rhaid troi at y farddoniaeth Geltaidd gynharaf a gadwyd mewn ysgrifen yn y Gymraeg ac yn yr Wyddeleg. Mae cyseinedd, odlau, cyflythreniad a phatrymau o sŵn yn bwysig yn y farddoniaeth honno. Mae'r pethau hyn, ynghyd â dywediadau set — pethau megis "Yn bresennol fe dderbynnir eich ewyllys da mewn casgliad" a glywir yn aml mewn capeli i hwyluso'r llefaru — yn tueddu i gael eu lle yn gyffredinol yn y traddodiad llafar o lenyddiaeth am eu bod nhw'n gryf eu hargraff ar y glust, yn rhoi lliw a blas i ystyr, ac yn helpu cof y datgeiniaid, sef y bobol sy'n llefaru. Eithr y mae'n debyg fod y pethau hyn, y patrymau sŵn, mor sylfaenol yn y dychymyg Celtaidd ag y dichon i bethau fel hyn fod. Ond does dim cerdd ar ôl yn y gwynt hwnnw sy'n dileu pob sŵn. Dim sŵn; ond mewn amgueddfeydd ar hyd a lled Ewrop y mae yna enghreifftiau o gelfyddydwaith y Celtiaid. Mae eu sgythriadau troellog mewn meini ac mewn gwaith metel yn para o hyd. Yn addurniadau'r gelfyddyd honno y ceir yr amgyffrediad gorau i'r llygad o'r hyn oedd sŵn mewn barddoniaeth Geltaidd, yn ôl pob tebyg. Y mae'r addurniadau'n gynghanedd o siapiau. Y mae'r hoffter hwn o addurn — addurn sy'n rhan hanfodol o'r cyfanwaith ac yn ei wneud o yr hyn yw o — yn nodwedd sylfaenol yn y dychymyg Celtaidd ac yn y dychymyg Cymraeg. O ystyried hyn dyw hi'n syndod yn y byd

fod gennym ni Gymry ein cynganeddion a'n pedwar mesur ar hugain a'n cerdd dafod (cerdd = crefft).

Wedyn dyna fawl y beirdd. Moli pwy yr oedd y beirdd Celtaidd? Yn ôl un ffynhonnell Glasurol, moli gwŷr dewrion. Canu mawl rhyfelwyr a olygai hynny, wrth gwrs. Byddai'n ddymunol cael mwy o fanylion am y mawl hwn gan ysgrifenwyr Clasurol. Efallai fod y ddau ddyfyniad a ganlyn o ryw help. Sôn y mae'r cyntaf am arwyr Celtaidd yn dod i flaen rhengoedd eu byddin i herio arwyr o blith rhengoedd y gelyn i ymladd â nhw:

> 'A phan dderbynio rhywun eu her i frwydr, maen nhw'n datgan yn uchel weithredoedd dewr eu hynafiaid ac yn cyhoeddi eu gwrhydri eu hunain.' (Dyfyniad o waith Diodorus Siculus).

Y tebyg yw y byddai bost arwr o'r fath yn codi cywilydd hyd yn oed ar y paffiwr enwog hwnnw, Muhammad Ali! Daw'r ail ddyfyniad o ddisgrifiad o'r Celtiaid yn bwyta:

> '. . . maen nhw'n eistedd mewn cylch, gyda'r gŵr mwyaf ei awdurdod yn y canol, fel arweinydd y corws — pa un yw'r gŵr hwnnw'n fwyaf medrus ar arfau, neu urddas ei deulu, neu ei gyfoeth.' (Dyfyniad o waith Athenaeus).

Dengys y dyfyniadau hyn inni pa bethau a brisid gan y gymdeithas Geltaidd — medru trin arfau, dewrder, hynafiaid o urddas, meddiannau. Diau mai dyma a ganmolid ar ŵr gan y beirdd hwythau. Dyma a ganmolir yn y farddoniaeth Geltaidd gynharaf sydd ar gael, sef barddoniaeth Gymraeg a barddoniaeth Wyddeleg. Canu i arweinwyr cymdeithas oedd canu'r beirdd, canu i arglwyddi rhyfel. Y beirdd oedd cynheiliaid eu hanrhydedd.

Barn ysgolheigion yw fod y bardd oedd yn bod yn y diwylliant oedd ohoni cyn i'r Celtiaid ddatblygu yn Geltiaid, fel petai, sef y diwylliant a elwir yn un Indo-Ewropeaidd, yn fath ar ddewin. Roedd o'n wneuthurwr clod, a thrwy ei glod i'w noddwr yr oedd o'n rhoddi anrhydedd iddo fo, neu'n cryfhau ei anrhydedd o. Gallai wneud hyn trwy ei gysylltiad â'r duwiau. Mewn gair, yr oedd gan y bardd alluoedd goruwchnaturiol. Fe gadwodd y bardd Celtaidd — a'r bardd Gwyddeleg a'r bardd Cymraeg — rywfaint o hyn. Prawf o hyn yw gallu gweledol neu broffwydol y beirdd hynny a'u gallu dychrynllyd i ddychanu.

Yn y chweched ganrif A.D., pan ganwyd y farddoniaeth Gymraeg gynharaf sydd ar gael (yn ôl pob tebyg) yr oedd traddodiad y canu ar draws mil o flynyddoedd o oed. Yr hyn oedd yn newydd yn y canu oedd yr iaith ac amgylchiadau'r chweched ganrif. Erbyn y cyfnod hwn roedd y Frythoneg, a ddatblygodd o'r Gelteg, wedi newid cymaint dros y rhan fwyaf o Brydain nes bod yn rhaid inni alw'r hyn a leferid yn 'Gymraeg'.

Ac edrych ar yr hen farddoniaeth yma o safbwynt mwy daearol, rhaid wynebu'r ffaith fod, ar lwybrau pawb ohonom ni, angau. Mae o'n wynebu arwyr fel y mae o'n wynebu pryfed genwair. Pan fydd pobol farw mae'r byw, yn hwyr neu'n hwyrach, yn eu hanghofio nhw. Mae tegwch pryd, nerth, gwrhydri, anrhydedd yn troi'n llwch os na chedwir nhw'n fyw ym meddyliau pobol, os na chedwir y cof amdanyn nhw. Yng Nghymru, y beirdd oedd yn cadw cof. Yn eu cerddi mawl a marwnad roedden nhw'n cofnodi ardderchowgrwydd eu noddwyr. Y beirdd oedd yn sefyll yn wyneb angau ac yn nannedd anghofrwydd. O dipyn i beth, wrth reswm, o gadw cof am unigolion a throsglwyddo'r cof o'r naill genhedlaeth i'r llall, fe ddaethon nhw'n geidwaid cof cenedl y Cymry. Yn y bôn yr hyn yw mawl, yn syml iawn, ydyw dweud, 'Fe fu'r dyn hwn fyw'. Wrth i'r beirdd gadw cof dros genedlaethau fe ddatblygodd delfryd o arwr yn eu cerddi, delfryd y gellir ei osod gerbron yr arwr y cenir cerdd iddo a'r gynulleidfa sy'n gwrando ar y gerdd. Yn hyn o beth y mae mawl yn gosod safon, ac yn wastad o blaid ffyniant y gymdeithas.

Felly nid gweniaith ydyw mawl. Neu, o leiaf, does dim rhaid iddo fod yn weniaith. Mawl gwag, neu ganmol heb fod haeddiant yw gweniaith. Does dim dichon fod mawl y beirdd bob amser yn gwbwl ddiledryw; mae hyn yn neilltuol o wir yn niwedd cyfnod Beirdd yr Uchelwyr. Yn amser Siôn Dafydd Rhys (1534-1609?) roedd y beirdd yn disgrifio noddwyr yn :

> 'lladd miloedd o wŷr mewn rhyfel, neu fwrw cestyll i'r llawr o filwriaeth; neu ryw fawr wrhydri arall honedig arnynt; a'r gwŷr hwythau yna yn eu gwelyau yn cysgu yn ddiofal, heb ddim ryw fath feddwl nac amcan ganddynt.'

Roedd hi'n demtasiwn yn aml, mae'n sicr, i'r beirdd foli o 'chwant derbyn' (er tâl) — a chofier fod cael eu cydnabod gydag

anrhegion yn bwysig iawn i'r beirdd a bod rhoddi'n rhan o ddyletswydd y noddwr. Ond dyw hi ddim yn deg barnu'r gyfundrefn gyfan ar ei gwendid, a'i barnu ar ei gwendid ydyw dal mai gweniaith yw'r cwbwl o'r mawl ac mai rhyw lun o adar ysglyfaethus, dragwyddol yn llygadu eu gwobrau oedd y beirdd.

Sut y mae barnu a yw'r mawl sy mewn cerdd yn gywir? Fe ellid ceisio gweithio'r peth yn hanesyddol, megis trwy geisio gwireddu honiadau'r bardd ynglŷn â'i noddwr. Dyw hynny'n aml ddim yn bosibl. Yn fynych tystiolaeth y bardd am ŵr yw'r unig dystiolaeth sydd ar gael yn ei gylch. Yn y pen draw, i'r sawl sy'n troi at farddoniaeth Gymraeg fel llenyddiaeth, y prawf yw prawf pob llenyddiaeth, sef a yw'r teimlad a fynegir yn taro'n gywir yn llenyddol. A yw'r mawl mewn cerdd, a yw'r tristwch mewn marwnad yn taro'n ddiffuant yn llenyddol — dyna'r cwestiynau y mae'n rhaid inni eu gofyn. Yn y pen draw mater o egni dychymyg y bardd a'i feistrolaeth o ar ei grefft yw diffuantrwydd llenyddol. Hynny yw, mae o'n fater i chwaeth lenyddol y darllenydd. Ystyriwch awdl farwnad enwog Gruffydd ab yr Ynad Coch i Lywelyn y Llyw Olaf: a ydyw'r mawl, a ydyw'r galar yn ddiffuant yno? Wrth gwrs eu bod nhw, am fod y ffordd y mynegodd y bardd nhw'n gwbwl argyhoeddiadol.

Rydym ni wedi dod at farddoniaeth Gymraeg yn y drafodaeth uchod. Yn y bennod nesaf fe soniwn ni am ddechrau'r traddodiad barddol Cymraeg, ond y mae'n bwysig inni sylweddoli nad dechreuad oedd hwnnw, mewn gwirionedd, ond parhad o draddodiad Celtaidd o farddoni.